

galeri

Teitl y Swydd : Cogydd
Adran: Café Bar Galeri
Yn atebol i'r: Cyfarwyddwr Gweithrediadau / Rheolwr Café Bar / Prif Gogydd
Cyflog: I'w drafod
Oriau: Isafswm 20 awr yr wythnos
Dyddiad cau: 31.01.22 (17:00)
I ddechrau: Cyn gynted a phosib
I ymgeisio: Cwblhewch y ffurflen gais ac ebostiwch/anfonwch i sylw:
Steffan.thomas@galericaernarfon.com

Rydym yn croesawu sgwrs anffurfiol gyda unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymgeisio

Pwrpas y Swydd:

- I gynorthwyo'r Prif Gogydd gyda unrhyw barotoadau / dyletswyddau fel bo'r angen a'r gofyn
- I ddirprwyo yn absenoldeb y Prif Gogydd
- I gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gofal Cwsmer fel bo'r angen
- Goruchwyllo a chydlynnu adran o'r Gegin i ddarparu a choginio prydau'r bwyty

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cyffredinol

- Paratoi, coginio a chyflwyno bwyd yn unol â'r archebion a dderbynir gan y staff gweini yn ogystal ac ar gyfer digwyddiadau neilltuoel- hyn o safon uchel yn sydyn ac effeithlon
- Bod yn ymwybodol o gynhwysion i gyfarfod gofynnion dietegol
- Gallu gweithio oddi ar eich menter eich hun heb oruchwyliaeth
- Sicrhau bod cyflenwad cyson o nwyddau/ chynhwysion ar gael ar gyfer y shift nesaf
- I ddarganfod beth sydd angen ei wneud ar gyfnodion distaw, heb anogaeth
- Derbyn a llofnodi ar gyfer nwyddau a sicrhau ansawdd
- Cynnal a chadw gwaith papur y gegin yn ddyddiol, yn bennodol agweddau o ddiogelwch bwyd
- Cyfrannu at ddatblygiad y gegin
- Cyflawni'r dyletswyddau mewn dull effeithiol, cwrtais, proffesiynol a chyson
- Rhoi gwasanaeth cyson a sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal mewn cydweithrediad â'r Prif Gogydd
- I dderbyn galwadau ffon a delio âc ymholiadau pan yn ofynnol
- I fod yn ymwybodol o ofynnion Iechyd a Diogelwch cegin weithredol
- Sicrhau ymwybyddiaeth ar gychwyn pob shift o'r prydau arbennig / beth sydd ymlaen yn yr adeilad
- Hysbysu staff blaen ty o'r prydau arbennig sydd ar gael ar gychwyn neu yn ystod shift
- Hysbysu staff blaen ty am unrhyw gyfnodau disgwyl yn ystod gwasanaeth a cadw cyfathrebiad cyson efo nhw
- Gwyliadwriaeth cyffredinol a rheolaidd o'r gegin
- Sicrhau bod parotoadau / tasgau wedi ei cyflawni cyn darford shift a bod yr adran yn barod am fusnes ar y diwrnod canlynol
- I gynorthwyo gyda cyflenwi dros dro yn ystod digwyddiadau / gwyliau/ salwch
- I nodi ac adrodd unrhyw ddiffygion yn y gegin

